Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct

# Canlyniadau yn dilyn ymchwiliadau annibynnol yr IOPC

2020/21

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ........ 3

**Crynodeb o'r canlyniadau 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021** ........ 5

**Gwybodaeth am ein hymchwiliadau** ........ 6

**Penderfyniadau yn dilyn ymchwiliadau a gwblhawyd** ........ 7

Penderfyniadau ynglŷn âg ymddygiad ........ 7

Atgyfeiriadau i Wasanaeth Erlyn y Goron ........ 7

**Camymddwyn a chanlyniadau troseddol** ........ 8

Achosion camymddwyn ........ 8

Achosion troseddol ........ 12

**Atodiadau** ........ 13

Atodiad A: geirfa ........ 13

Atodiad B: ystyriaethau data ........ 13

Mae'r data yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021. Gall y data gael ei newid wrth iddo gael ei gymryd o system fyw. Heblaw ei fod yn cael ei nodi'n wahanol, mae'r ffigurau'n cyfeirio at y canlyniadau ar gyfer swyddogion neu staff heddlu unigol, ac nid at nifer yr ymchwiliadau.

# Cyflwyniad

## Gwybodaeth am yr IOPC

Mae Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) yn goruchwylio system gwynion yr heddlu yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn annibynnol, ac yn gwneud ein penderfyniadau yn annibynnol i'r heddlu, y llywodraeth a grwpiau buddiant.

Rydym yn ymchwilio i'r cwynion a'r digwyddiadau mwyaf difrifol, gan gynnwys marwolaethau yn dilyn cyswllt â'r heddlu, ac yn gosod y safonau y dylai'r heddlu ymdrin â chwynion yn eu herbyn. Rydym yn defnyddio dysgu o'n gwaith i ddylanwadu ar newidiadau mewn plismona.

Mae heddluoedd arbenigol fel Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn, y Gwnstabliaeth Niwclear Sifil a Heddlu Trafnidiaeth Prydain hefyd yn dod o dan ein hawdurdodaeth. Rydym hefyd yn goruchwylio'r system gwynion ar gyfer sefydliadau eraill, megis Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a'r Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur. Rydym yn ymchwilio i rai cwynion difrifol a materion ymddygiad am staff o'r sefydliadau hyn. Rydym hefyd yn ymchwilio i honiadau troseddol yn erbyn comisiynwyr heddlu a throseddu, eu dirprwyon, a chontractwyr sy'n gweithio i'r heddlu.

Mae ein hymchwiliadau yn canolbwyntio'n gryf ar pam y digwyddodd pethau, a beth allai eu hatal rhag ddigwydd eto. Mae hwn yn golygu edrych ar hyfforddiant, cymorth rheoli a diwylliant sefydliadol. Gallwch ddarllen am yr argymhellion a wnawn, crynodebau o'n hymchwiliadau, a'n cyhoeddiadau ar ein gwefan – www.policeconduct.gov.uk

## Gwybodaeth am systemau cwynion a disgyblaeth yr heddlu

Heddluoedd sy'n gyfrifol am system ddisgyblu'r heddlu ac fe'i gweinyddir ganddynt. Mae adrannau safonau proffesiynol heddluoedd (PSDs) yn delio â'r mwyafrif o gwynion a honiadau o gamymddwyn gan yr heddlu. Mae'r Swyddfa Gartref yn cyhoeddi gwybodaeth a gofnodir gan PSDs am ganlyniadau camymddwyn ac ymchwiliadau troseddol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymchwiliadau'r IOPC. Rhaid i PSDs gyfeirio'r achosion mwyaf difrifol atom ni, ni waeth a yw rhywun wedi gwneud cwyn neu peidio.

## Gwybodaeth am yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r canlyniadau yn dilyn ymchwiliadau annibynnol yr IOPC rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021. Cyflwynodd *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*, fel y diwygiwyd gan *Ddeddf yr Heddlu a Throseddu 2017*, nifer o ddiwygiadau i systemau cwynion a disgyblu'r heddlu. Roedd y diwygiadau hyn yn cynnwys newidiadau i'r trothwy ar gyfer camymddwyn a chanlyniadau mewn achosion disgyblu ar gyfer achosion lle gwnaed cwynion, neu pan ddaeth materion ymddygiad i sylw'r heddlu, ar ôl 1 Chwefror 2020. Bydd rhai o'r ymchwiliadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn wedi dechrau cyn y dyddiad hwn ac felly'n dod o dan y ddeddfwriaeth flaenorol (*Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* fel y diwygiwyd gan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011*). Mae'r rhannau o'n prosesau, ble mae'r newidiadau hyn yn effeithio arnynt, wedi'u hamlygu yn yr adroddiad ac mae'r ddwy fersiwn o'r prosesau hyn yn cael eu hesbonio.

Cyflwynir y data yn yr adroddiad hwn mewn dwy adran: penderfyniadau a wnaed ar ôl ein hymchwiliadau, a chanlyniadau camymddwyn neu achosion troseddol.

Pan fyddwn yn cyfeirio at ganlyniadau mae hwn yn golygu:

- Y penderfyniad a wnawn ynghylch a oes gan rywun achos i'w ateb am gamymddwyn neu gamymddwyn difrifol o ganlyniad i'n hymchwiliad annibynnol. Tra byddwn yn ystyried barn yr awdurdod priodol am yr hyn a ddylai ddigwydd, ni fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Yr awdurdod priodol sy'n cymryd unrhyw gamau disgyblu.

Mae'r awdurdod priodol yn un o'r canlynol:

  - prif swyddog yr heddlu (neu swyddog cyfatebol)
  - y PPC ar gyfer yr heddlu y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef
  - Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a Throseddu (os yw'r gŵyn yn ymwneud â Chomisiynydd Gwasanaeth Heddlu Llundain)
  - Cyngor Cyffredin Dinas Llundain (os yw'r gŵyn yn ymwneud â Chomisiynydd Heddlu Dinas Llundain)

- y penderfyniad i wneud atgyfeiriad i Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) lle mae arwydd y gallai rhywun fod wedi cyflawni trosedd
- canlyniadau camymddwyn neu achosion troseddol a ddigwyddodd yn 2020/21

Mae'n bosibl y bydd canlyniadau'r achosion a gwmpesir yn yr adroddiad hwn yn ymwneud ag ymchwiliadau a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, efallai bod yr ymchwiliad wedi'i gwblhau cyn 2020/21 gyda'r achos camymddwyn dilynol yn cael ei gynnal yn ystod 2020/21. Mae hwn yn golygu na ddylid cymharu canlyniadau ymchwiliad a ffigurau achosion. Mae hwn oherwydd y gall fod oedi sylweddol rhwng diwedd ein hymchwiliad ac unrhyw achosion camymddwyn a gynhelir gan awdurdodau priodol neu achosion troseddol a erlynir gan y CPS.

# Crynodeb o'r canlyniadau

1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021

## Penderfyniadau yn dilyn ymchwiliadau a gwblhawyd

**460** ymchwiliadau a gwblhawyd gan yr IOPC

O'R RHAIN

**159** materion ymddygiad (35% o'r holl ymchwiliadau)

**69** ymchwiliadau troseddol hefyd (15% o'r holl ymchwiliadau)

**82** cyfrifon a gafwyd o dan rybudd troseddol

**57** wedi'ucyfeirio at y CPS (cyfwerth â 70% o swyddogion heddlu/staff yr ymchwiliwyd iddynt yndroseddol)

Mae **293** o swyddogion a staff yr heddlu yn rhan

O'R RHAIN

**130** yn benderfynol o gael achos i'w ateb am gamymddwyn neu gamymddwyn difrifol (44% o swyddogion heddlu/staff yr ymchwiliwyd iddynt)

## Camymddwyn a chanlyniadau troseddol

**107** achosion camymddwyn a gynhelir gan awdurdod priodol

O'R RHAIN

**85** achosion o gamymddwyn neu gamymddwyn difrifol wedi'u profi (79%)

**WYTH** o swyddogion /staff wynebodd achos troseddol

O'R RHAIN

**CHWECH** Naill ai wedi pledio'n euog neu'n euog yn y treial (75%)

# Gwybodaeth am ein hymchwiliadau

Wrth gyflawni eu dyletswyddau, disgwylir i swyddogion heddlu a staff heddlu i gynnal y safonau uchaf o ymddygiad proffesiynol. Mae'r safonau hyn wedi'u nodi yn *Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2012* a *Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020* ac maent yn berthnasol i bob swyddog heddlu a chwnstabl gwirfoddol, gyda'r hyn sy'n cyfateb iddynt mewn polisi lleol ar gyfer staff yr heddlu.

Gallai honiadau bod y safonau ymddygiad proffesiynol wedi'u torri ddod o gŵyn a wnaed gan aelod o'r cyhoedd, neu o bryder a godwyd yn fewnol o fewn yr heddlu. Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i heddluoedd hefyd gyfeirio materion penodol atom ni, megis marwolaeth neu anaf difrifol (DSI) yn dilyn cyswllt â'r heddlu.

Pan fyddwn yn derbyn atgyfeiriad, byddwn yn gwneud asesiad i benderfynu a ddylai'r mater gael ei ymchwilio gennym ni neu ei gyfeirio'n ôl at yr heddlu i ymchwilio iddo. Mae ein hymchwiliadau yn asesu'r holl dystiolaeth sydd ar gael ac yn rhoi barn annibynnol ynghylch a oes achos i'w ateb am gamymddwyn neu gamymddwyn difrifol, neu a oedd perfformiad rhywun yn  anfoddhaol.

Ar ddiwedd ymchwiliad, rydym yn cynhyrchu adroddiad terfynol. Mae hwn yn dadansoddi ac yn crynhoi'r dystiolaeth a gasglwyd. Mae dogfen farn y penderfynwr sy'n cyd-fynd, yn nodi ein barn ar ymddygiad, perfformiad neu ddysgu.

Rydym yn anfon ein hadroddiad at yr awdurdod priodol dan sylw ac yn gofyn am eu barn ynghylch a oes gan rywun achos i'w ateb.

Os na fydd yr heddlu yn cytuno â'r farn a nodir yn ein hadroddiad, byddwn yn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch a oes gan y person hwnnw achos i'w ateb. Rhaid i'r awdurdod priodol gydymffurfio â'r cyfarwyddyd hwn.

O dan y ddeddfwriaeth flaenorol, ar ôl gwrando ar pam mae'r heddlu'n anghytuno â'n barn ni, gallwn gymryd y camau canlynol:

- gwrando ar pam mae'r heddlu'n anghytuno dylid dwyn achos camymddwyn
- argymell bod yr heddlu yn cynnal achos o gamymddwyn
- yna, os oes angen, cyfarwyddo'r heddlu i gynnal achos o gamymddwyn

Gwneir y penderfyniad terfynol ynghylch a brofwyd camymddwyn a pha gosb, os o gwbl, a ddylai fod yn gymwys yn ystod achosion camymddwyn a gynhelir gan yr heddlu. Mae gan banel gwrandawiad camymddwyn gadeirydd annibynnol sydd â chymwysterau cyfreithiol.

Lle cynhelir ymchwiliad, rydym yn darparu ein hadroddiad a thystiolaeth i'r Crwner. Mae'r rhain yn cael eu hystyried yn ystod yr ymchwiliad.

Os yw'n bosibl, ar ddiwedd ein hymchwiliad, y gallai trosedd fod wedi'i chyflawni, byddwn yn cyfeirio'r achos at y CPS i benderfynu a yw'r dystiolaeth yn bodloni'r trothwy ar gyfer achos cyfreithiol. Os bydd y CPS yn penderfynu cyhuddo, mater i'r llysoedd wedyn yw penderfynu a gyflawnodd y person dan sylw drosedd.

Rhan bwysig o'n gwaith yw edrych ar yr hyn a achosodd y sefyllfa yr ymchwiliwyd iddi, a sut y gellir atal hyn yn y dyfodol. Gallwn wneud argymhellion, sy'n amrywio o hyfforddiant, i newidiadau mewn polisi, arfer, goruchwyliaeth a gwelliannau diogelwch. Mae ein hadroddiad Effaith yn dangos sut mae ein gwaith yn gwneud gwahaniaeth drwy ddylanwadu ar welliannau mewn arferion plismona a lleihau risgiau yn y dyfodol. Gallwch ddarllen crynodebau o'n hymchwiliadau a manylion yr argymhellion a wnawn ar ein gwefan: www.policeconduct.gov.uk/investigations/investigation-summaries-and-learning-recommendations

# Penderfyniadau yn dilyn ymchwiliadau a gwblhawyd


Mae'r adran hon yn crynhoi'r penderfyniadau a wnaed ar ôl i'n hymchwiliadau ddod i ben.

## Penderfyniadau ynglŷn âg ymddygiad

Yn ystod 2020/21, fe wnaethom ymchwilio i 293 o swyddogion a staff yr heddlu. Gwelsom fod gan 44% (130) achos i'w ateb am gamymddwyn neu gamymddwyn difrifol.

Fe wnaethom gyfarwyddo'r awdurdod priodol

**Ffigur 1: Penderfyniadau achos i'w ateb yn 2020/21 yn ôl deddfwriaeth berthnasol**




i gynnal achosion camymddwyn yn achos tri o bobl.

O'r 130 o swyddogion/staff oedd ag achos i'w ateb, roedd 52 yn ymwneud â chamymddwyn a 78 yn ymwneud â chamymddwyn difrifol.

Roedd ein hymchwiliadau wedi canfod nad oedd gan 156 o'r swyddogion heddlu a staff, yr ymchwiliwyd, achos i'w ateb am gamymddwyn neu gamymddwyn difrifol. Cymerwyd camau pellach mewn ymateb i 47% (73) o'r pobl hyn. Roedd y cam hwn yn cynnwys camau gweithredu neu gyngor gan reolwyr i wella ymddygiad y swyddog, gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol neu atgyfeiriad i'r broses adolygu ymarfer myfyriol.

Nid yw'r penderfyniad achos i ateb yn cael ei gofnodi ar gyfer saith o bobl.

## Cyfeiriadau i'r CPS

Byddwn yn hysbysu'r rhai dan sylw os bydd ein hymchwiliadau'n canfod y gallai rhywun fod wedi cyflawni trosedd. Rydym yn esbonio eu hawliau cyfreithiol ac yn cymryd camau i gael eu cyfrif dan rybudd troseddol.

Cafodd ein hymchwilwyr gyfrifon gan 82 o swyddogion heddlu a staff a oedd o dan rybudd troseddol yn ystod ymchwiliadau a gwblhawyd yn 2020/21.

Trosglwyddwn ein hadroddiad i'r CPS os credwn, ar ddiwedd ein hymchwiliad, y gallai heddwas neu aelod o staff yr heddlu fod wedi cyflawni trosedd. Bydd y CPS yn penderfynu a ddylai'r person gael ei erlyn.

Cyfeiriwyd 57 o bobl at y CPS yn dilyn ein hymchwiliadau. Penderfynodd y CPS i erlyn 25% (14). Nid yw'r CPS wedi penderfynu ynglŷn â'r 14 o'r bobl y gwnaethom eu hatgyfeirio eto.

Rydym yn cymhwyso prawf dwy ran, a nodir ym mharagraff 23, Atodlen 3 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002, wrth benderfynu a ddylid cyfeirio achos at y CPS. Gallwch ddarllen mwy am hyn yn ein Canllawiau Statudol. Mae'r trothwy rydym yn gweithio iddo yn wahanol i'r trothwy uwch y mae'r CPS yn gweithio iddo pan fydd yn penderfynu a yw'n briodol i erlyn rhywun.

# Camymddwyn a chanlyniadau troseddol

Cynhaliwyd yr achosion y cyfeirir atynt yn yr adran hon yn 2020/21. Mae’n bosibl bod ein hymchwiliad wedi’i gwblhau yn yr un cyfnod neu cyn hyn. Nid ydym yn penderfynu pryd y cynhelir achos; yr awdurdod priodol neu'r CPS sy'n penderfynu ar hyn. Mewn rhai achosion, daw achos i ben fisoedd neu flynyddoedd ar ôl i'n hymchwiliad ddod i ben. Mae hwn yn golygu na ddylid cymharu canlyniadau ymchwiliad a gyflwynwyd yn adran flaenorol yr adroddiad hwn a’r canlyniadau yn yr adran hon.

## Achosion camymddwyn

Mae dau fath o achosion camymddwyn:

- Ar gyfer camymddwyn difrifol, trefnir gwrandawiad camymddwyn gan yr heddlu (neu awdurdod arall). Y lefel uchaf o sancsiwn yw diswyddo heb rybudd.
- Ar gyfer camymddwyn, trefnir cyfarfod camymddwyn gan yr heddlu (neu awdurdod arall). Y lefel uchaf o sancsiwn mewn cyfarfod camymddwyn yw rhybudd ysgrifenedig terfynol.

O dan y ddeddfwriaeth flaenorol, mewn rhai sefyllfaoedd lle mae’r awdurdod priodol yn penderfynu bod achos i’w ateb am gamymddwyn, gellir ystyried camau rheoli yn lle achosion camymddwyn. O dan amgylchiadau penodol, gellir barnu bod gwrandawiad camymddwyn yn fwy priodol na chyfarfod camymddwyn. Gallwch ddarllen mwy am yr amgylchiadau hyn yn ein Canllawiau Statudol.

Mae systemau disgyblu gwahanol ar gyfer swyddogion heddlu a staff heddlu. Mae swyddogion heddlu a chwnstabliaid gwirfoddol yn ddarostyngedig i’r rheoliadau a nodir yn Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2012 neu Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020. Ymdrinnir â chwynion a materion ymddygiad sy'n ymwneud â staff ym mholisïau heddlu unigol.

Ar gyfer swyddogion heddlu a chwnstabliaid gwirfoddol, cynhelir cyfarfodydd camymddwyn gan swyddog uwch a benodir gan yr awdurdod priodol. Cynhelir gwrandawiadau gan banel a gadeirir gan gadeirydd sydd â chymwysterau cyfreithiol a benodir gan y corff plismona lleol.

Mae Ffigurau 2 a 3 yn disgrifio'r gwahanol ffyrdd y gellid cyrraedd canlyniadau camymddwyn.

**Ffigur 2: Sut mae canlyniadau camymddwyn yn cael eu cyrraedd ar gyfer materion ymddygiad o dan y ddeddfwriaeth bresennol**

### Cyfarfod camymddygiad

**Canfyddiadau posibl:**
- Profi camymddwyn
- Camymddwyn heb ei brofi

↓

- Rhybudd ysgrifenedig terfynol
- Rhybudd ysgrifenedig
- Atgyfeirio at y broses adolygu ymarfer myfyriol (os na phrofwyd camymddwyn)
- Dim camau pellach

### Gwrandawiad camymddygiad

**Canfyddiadau posibl:**
- Profi camymddwyn difrifol
- Profi camymddwyn
- Achos heb ei brofi

↓

- Diswyddo heb rybudd
- Estyniad i rybudd ysgrifenedig terfynol
- Rhybudd ysgrifenedig terfynol
- Rhybudd ysgrifenedig
- Gostyngiad mewn gradd
- Cyfeirio at y broses adolygu ymarfer myfyriol (os na phrofwyd camymddwyn neu gamymddwyn difrifol)
- Dim camau pellach

### Gwrandawiad camymddygiad wedi'i gyflymu

**Canfyddiadau posibl:**
- Profi camymddwyn difrifol
- Camymddwyn difrifol heb ei brofi

↓

- Diswyddo heb rybudd
- Gostyngiad mewn gradd
- Rhybudd ysgrifenedig terfynol
- Dychwelyd yr achos i'r awdurdod priodol i ymdrin ag ef fel achos heb ei gyflymu

**Ffigur 3: Sut mae canlyniadau camymddwyn yn cael eu cyrraedd ar gyfer materion ymddygiad o dan y ddeddfwriaeth flaenorol**

### Cyfarfod camymddygiad

**Canfyddiadau posibl:**
- Profi camymddwyn
- Achos heb ei brofi

↓

- Rhybudd ysgrifenedig terfynol
- Rhybudd ysgrifenedig
- Cyngor rheoli
- Dim camau pellach

### Gwrandawiad camymddygiad

**Canfyddiadau posibl:**
- Profi camymddwyn difrifol
- Profi camymddwyn
- Achos heb ei brofi

↓

- Diswyddo heb rybudd
- Diswyddo gyda rhybudd
- Estyniad i rybudd ysgrifenedig terfynol
- Rhybudd ysgrifenedig terfynol
- Rhybudd ysgrifenedig
- Cyngor rheoli
- Dim camau pellach

### Gwrandawiad achos arbennig

**Canfyddiadau posibl:**
- Profi camymddwyn difrifol
- Camymddwyn difrifol heb ei brofi


↓

- Diswyddo heb rybudd
- Estyniad i rybudd ysgrifenedig terfynol
- Rhybudd ysgrifenedig terfynol
- Dychwelyd yr achos i'r awdurdod priodol i ymdrin ag ef fel cyfarfod camymddwyn neu wrandawiad camymddwyn
- Achos wedi'i wrthod

Yn 2020/21, cynhaliwyd achosion camymddwyn ar gyfer 107 o swyddogion/staff heddlu. Canfuwyd bod 79% (85) o'r swyddogion/staff hyn wedi torri'r safonau ymddygiad proffesiynol:

- profwyd camymddwyn difrifol ar gyfer 44 o swyddogion/staff
- profwyd camymddwyn ar gyfer 41 o swyddogion/staff
- ni phrofwyd camymddwyn ar gyfer 22 o swyddogion/staff


**Ffigur 4: Deilliannau yn dilyn achosion camymddwyn 2020/21**




Yn y 44 achos lle profwyd camymddwyn difrifol, roedd y camau disgyblu a roddwyd fel y canlynol:

- Cafodd 25 o bobl eu diswyddo heb rybudd
- Derbyniodd 11 o bobl rybudd ysgrifenedig terfynol

**Ffigur 5: Camau disgyblu yn dilyn achosion camymddwyn lle profwyd camymddwyn difrifol yn 2020/21****





* Nodwch nad yw ffigurau pump a chwech yn cynnwys swyddogion/staff a ymddeolodd neu a ymddiswyddodd cyn yr achos. Er y gall camymddwyn (neu gamymddwyn difrifol) gael ei brofi mewn gwrandawiad camymddwyn ar gyfer swyddogion a ymddiswyddodd/ymddeol ar ôl Rhagfyr 2017, nid yw camau disgyblu dilynol yn cael eu cofnodi. Felly, gall ffigurau fod yn wahanol i gyfanswm y camymddwyn a adroddwyd.

** Cyfeiriwch at ffigur dau am ragor o wybodaeth am gamau disgyblu 'eraill'.

Mewn 41 achos, profwyd camymddwyn:

- derbyniodd saith o bobl rybudd ysgrifenedig terfynol
- derbyniodd 20 o bobl rybudd ysgrifenedig
- derbyniodd wyth o bobl gyngor rheoli
- ni dderbyniodd pump o bobl unrhyw gamau pellach

**Ffigur 6: Camau disgyblu yn dilyn achosion camymddwyn lle profwyd camymddwyn 2020/21***




O'r achosion a gynhaliwyd yn 2020/21, fe wnaethom gyfarwyddo'r awdurdodau priodol i'w cadw ar gyfer wyth swyddog heddlu a staff. Mewn pump o'r achosion hyn, ffeindiodd yr achosion a gyfeiriwyd gennym fod y rhai dan sylw wedi torri'r safonau ymddygiad proffesiynol.

- Profodd dau achos o gamymddwyn difrifol, a derbyniodd y ddau rybudd ysgrifenedig terfynol.
- Profodd tri achos o gamymddwyn, lle derbyniodd un person rybudd ysgrifenedig ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â dau berson.

* Nodwch nad yw ffigurau pump a chwech yn cynnwys swyddogion/staff a ymddeolodd neu a ymddiswyddodd cyn yr achos. Er y gall camymddwyn (neu gamymddwyn difrifol) gael ei brofi mewn gwrandawiad camymddwyn ar gyfer swyddogion a ymddiswyddodd/ymddeol ar ôl Rhagfyr 2017, nid yw camau disgyblu dilynol yn cael eu cofnodi. Felly, gall ffigurau fod yn wahanol i gyfanswm y camymddwyn a adroddwyd.

** Cyfeiriwch at ffigur dau am ragor o wybodaeth am gamau disgyblu 'eraill'.

## Achosion troseddol

Nid yw'r ffaith bod achos troseddol wedi'i gynnal yn ystod 2020/21 o reidrwydd yn golygu bod ymchwiliad cysylltiedig yr IOPC wedi'i gwblhau o fewn yr un cyfnod.

Yn 2020/21, daeth y CPS ag achosion troseddol yn erbyn pum heddwas a thri aelod o staff yn dilyn ymchwiliad gan yr IOPC. Arweiniodd yr achosion hyn at chwe rheithfarn neu bled euog (ffigur saith) a dwy reithfarn ddieuog (ffigur wyth).

Lle'r oedd y rheithfarn (neu ble) yn euog:

- derbyniodd tri o bobl ddedfryd o garchar
- derbyniodd un person ddedfryd ohiriedig o chwe mis a chafodd ei ddedfrydu i wasanaeth cymunedol
- dedfrydwyd un i wasanaeth cymunedol
- gorchmynwyd un i dalu dirwy

**Ffigur 7: Tabl o droseddau – dyfarniadau euog 2020/21**

| Trosedd | Nifer |
|---|---|
| Camddefnyddio cyfrifiaduron a throseddau diogelu data | 1 |
| Troseddau diogelu data | 1 |
| Camymddwyn mewn swydd gyhoeddus | 3 |
| Meddiannu data personol heb ganiatâd; prosesu data anghyfreithlon | 1 |

**Ffigur 7: Tabl o droseddau – dyfarniadau dieuog 2020/21**

| Trosedd | Nifer |
|---|---|
| Ymosodiad yn achosi gwir niwed corfforol | 1 |
| Cyfleu delwedd hynod sarhaus | 1 |

# Atodiadau

## Atodiad A: geirfa

**Awdurdod priodol** – mae'r awdurdod priodol yn un o'r canlynol:

- prif swyddog yr heddlu
- comisiynydd heddlu a throseddu ar gyfer yr heddlu y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef
- Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a Throseddu (os yw'r gŵyn yn ymwneud â Chomisiynydd Gwasanaeth Heddlu Llundain)
- Cyngor Cyffredin Dinas Llundain (os yw'r gŵyn yn ymwneud â Chomisiynydd heddlu Dinas Llundain)

**Ymddygiad** – mae'n cyfeirio at y ffordd y mae rhywun yn ymddwyn a'r ffordd y mae'n trin eraill. Er enghraifft, gall gynnwys pethau y maent yn eu dweud neu ddim yn eu dweud a'u penderfyniadau. Rhaid i swyddogion a staff yr heddlu ymddwyn mewn ffordd sy'n bodloni safonau proffesiynol.

**Mater ymddygiad** – sefyllfaoedd lle mae arwydd y gallai person sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu fod wedi cyflawni trosedd neu ymddwyn mewn modd a fyddai'n cyfiawnhau camau disgyblu.

**Camau disgyblu** – yn digwydd ar ddiwedd achos camymddwyn a gall gynnwys y canlynol:

(a) cyngor rheoli

(b) rhybudd ysgrifenedig

(c) rhybudd ysgrifenedig terfynol

(d) rhybudd ysgrifenedig terfynol presennol yn cael ei estyn

(e) diswyddo gyda rhybudd

(f) diswyddo heb rybudd

**Camymddwyn difrifol** – torri safonau ymddygiad proffesiynol sydd mor ddifrifol fel y gellir cyfiawnhau diswyddo.

**Camau rheoli** – camau a gymerir gan reolwr i wella perfformiad neu reoli ymddygiad aelod o staff. Mae'n gyfle i ddysgu ac i wella. Mae'n mynd i'r afael â pherfformiad ac ymddygiad mewn modd amserol, cymesur ac effeithiol. Nid yw camau gweithredu rheolwyr yn ganlyniad disgyblu ffurfiol.

**Cyngor rheoli** – mae'n cyfeirio at sefyllfaoedd pan fydd rheolwyr yn gweithredu fel canlyniad disgyblu ffurfiol yn dilyn achos camymddwyn neu gyfarfod apêl.

**Camymddwyn** – torri safonau ymddygiad proffesiynol mor ddifrifol i gyfiawnhau achos disgyblu.

**Gwrandawiad camymddwyn** – cynhelir i ymdrin â chamymddwyn a gall orfodi camau disgyblu hyd at a chan gynnwys diswyddiad.

**Cyfarfod camymddwyn** – cynhelir i ymdrin â chamymddwyn a gall orfodi camau disgyblu hyd at a chan gynnwys rhybudd ysgrifenedig terfynol.

**Achosion camymddwyn** – ar gyfer aelod o heddlu neu gwnstabl gwirfoddol, mae achos camymddwyn yn golygu cyfarfod camymddwyn neu wrandawiad camymddwyn. Ar gyfer aelod o staff yr heddlu, mae achosion camymddwyn yn golygu unrhyw achos neu broses reoli sy'n ystyried ei ymddygiad (yn hytrach na'i berfformiad) er mwyn penderfynu a yw ei ymddygiad yn cyfiawnhau cosb.

**Proses Adolygu Arfer Myfyriol (RPRP)** - Mae RPRP yn canolbwyntio ar unioni mater a'i atal rhag digwydd eto trwy annog y rhai sy'n gysylltiedig i fyfyrio ar eu gweithredoedd a dysgu oddi wrthynt. Nid yw'n broses ddisgyblu nac yn ganlyniad disgyblu.

**Gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol** – cyfres o gamau a ddefnyddir i wella perfformiad rhywun. Fe'i defnyddir pan nad oedd person yn gallu neu wedi methu â chyflawni ei rôl i lefel foddhaol ond heb dorri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol.

**Rhybudd ysgrifenedig** – gellir rhoi rhybuddion ysgrifenedig pan ystyrir bod mater yn ddigon difrifol. Bydd copi o'r llythyr yn cael ei roi yn ffeil bersonol yr unigolyn.

**Rhybudd ysgrifenedig terfynol** – rhoddir rhybudd ysgrifenedig terfynol pan nad yw rhybudd ysgrifenedig blaenorol wedi bod yn effeithiol neu pan ystyrir bod mater yn ddigon difrifol. Bydd copi o'r llythyr yn cael ei roi yn ffeil bersonol yr unigolyn.

## Atodiad B: ystyriaethau data

Mae canlyniadau yn dilyn ymchwiliadau'r IOPC yn cael eu cofnodi ar gronfa ddata bwrpasol, sy'n cynnwys y canlyniadau ar gyfer swyddogion heddlu/staff unigol sydd wedi bod yn destun ymchwiliad. Gall un ymchwiliad ystyried ymddygiad nifer o bobl. Mae'r ffigurau yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at y canlyniadau ar gyfer swyddogion heddlu/staff unigol ac nid nifer yr ymchwiliadau (heblaw y nodir yn wahanol).

Mae'r data yn yr adroddiad hwn yn fyw. Gall fod yn destun newid a gall adlewyrchu gwallau wrth fewnbynnu a  phrosesu data.

Mae'r IOPC wedi ymrwymo i wella ac adolygu ansawdd ein data. Wrth i ansawdd data wella, efallai y bydd amrywiaeth gyda'r ffigurau a adroddwyd yn flaenorol.

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021. Mae'n bosibl y bydd canlyniadau'r achosion a gwmpesir yn yr adroddiad hwn yn ymwneud ag ymchwiliadau a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, efallai eu bod wedi'u cwblhau cyn 2020/21 gyda'r achos camymddwyn dilynol yn cael ei gynnal yn ystod 2020/21. Mae hwn yn golygu na ddylid cymharu canlyniadau ymchwiliad a ffigurau achosion.

Nid yw'r adroddiad hwn yn ystadegau swyddogol fel y diffinnir yn *Neddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007*.

I gael mwy o wybodaeth am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu**
10 South Colonnade
Canary Wharf
Llundain
E14 4PU

Ffôn: **030 0020 0096**

Ebost: **enquiries@policeconduct.gov.uk**

Gwefan: **www.policeconduct.gov.uk**

Neges destun: **18001 020 8104 1220**

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg
Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg

Rhagfyr 2021

**© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (2022)**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai lle nodir yn wahanol.

Nid yw hyn yn cynnwys deunydd ar y wefan hon fel deunydd sy'n perthyn i drydydd partïon. Rhaid cael caniatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.